# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 3ydd Mawrth 2022 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin

Yn bresennol: Y Cynghorydd Iwan Thomas (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Nigel Davies, Robert Davies, Arwel Jones, Gwyndaf Morgan ac Alwen Thomas.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Denfer Morgan (Clerc).

**489 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Helen Evans, John Lumley a Ray Williams am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**490 Materion Personol**

Nodwyd marwolaeth diweddar Mr Alun Jenkins, cyn Aelod o'r Cyngor ac Archwilydd Mewnol am gyfnod.

**491 Datgelu Buddiannau**

Datgelodd y Cynghorydd Iwan Thomas fuddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yng nghais CFfI Felinfach am gymorth ariannol y cyfeirir ato yng nghonod 495 isod.

**492 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Chwefror 2022.

**493 Materion yn Codi o'r Cyfarfod**

Cytunwyd dilyn sawl mater i fyny gyda'r Cyngor Sir lle na chafwyd ateb hyd yn hyn, gan gynnwys;

- ail-osod yr arwydd 40mya ar yr A482 ar ochr orllewinol Ciliau Aeron
- ail-osod arwydd 'ffordd yn culhau' ar y ffordd ger Felin Tyglyn

**494 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

Costau gweinyddol y Clerc - £101.14
*Cyflog y Clerc (Ion-Chwef-Mawrth):*
Denfer Morgan - £294.91
CThEM (TWE) - £73.73

**495 Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

Rhoddwyd ystyriaeth i geisiadau am gymorth ariannol a **PHENDERYNWYD** gwneud cyfraniadau fel a ganlyn:

CFfI Felinfach £100
Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch - £100
Ambiwlans Awyr Cymru - £100

**496 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau cynllunio isod a **PHENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

a) A211169 - Cariad Cottage, Tynewydd Fields, Cilcennin. *Retrospective conversion of disused garage/workshop building to residential holiday let*.

**Penderfyniad**: Anfon y sylwadau canlynol: Mae'r cais yn awgrymu bod y modurdy gwreiddiol ddim yn cael ei ddefnyddio, ond eto'i gyd mae dogfennau'r cais yn disgrifio nifer o adeiladau allanol ar y safle ac mae gwrthwynebwyr wedi amlinellu bod nifer o gerbydau yn cael eu parcio ar y safle.

*b)* A211170 - Land at Tynewydd Fields, Cilcennin. *Retrospective planning for a new summerhouse building to be used ancillary to existing house complete with external decking, private foul water drainage treatment plant and associated works.*

**Penderfyniad**: Anfon y sylwadau canlynol: fod y Cyngor o'r farn fod disgrifiad o'r adeilad yma fel 'summer house' yn gamarweiniol (summer house: a small building in a garden, used for sitting in during fine weather) a theimlir bod angen ymchwilio'r gwir defnydd o'r adeilad yma ymhellach ar lefel cynllunio (a rheoliadau adeiladu hefyd). Mae'r adeilad yma yn un sylweddol o ran maint ac yn ddigon fawr i cael ei ddefnyddio fel cartref teuluol.

*c)* A220059 - Henfaes, Cilcennin. *Conversion of Existing Stone Building to One Holiday Let Unit.*

**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad.

**497 Adeilad Ysgol Cilcennin**

Adroddodd y Cynghorydd Michelle Davies fod Cilcennin Cyntaf wedi cwrdd yr wythnos blaenorol ac yn bwriadu rhannu holiadur yn y gymuned er mwyn cael syniadau am ddatblygu'r adeilad. Gwnaed cais i Gynnal y Cardi am grant er mwyn cyllido'r ymarferiad hwn. Fe fyddai gweithgor yn cael ei sefydlu i ystyried y cynigion a dderbynnir.

**498 Mynwent Eglwys Cilcennin**

**PENDERFYNWYD** gofyn i Awdurdodau'r Eglwys am fanylion unrhyw gyngor a gafwyd ganddyn oddi wrth eu hasiantwyr, Cooke and Arkwright, ynghylch gwerth y tir a oedd dan ystyriaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm